



**YOUTH
WITHOUT
LIMITS**

DofE Recruitment Toolkit: Template letter/email

(Welsh version)

For parents and carers

Annwyl riant/gofalwr,

Mae'n bleser gennyf roi gwybod i chi ein bod ar fin lansio'r Wobr Dug Caeredin (DofE) [Efydd/Arian/Aur]. Fi yw'r Rheolwr DofE ar gyfer [ysgol/sefydliad] ac roeddwn yn awyddus i ysgrifennu atoch i roi gwybod mwy i chi am yr hyn sydd ynghlwm.

Pam gwneud DofE?

Mae gwneud ei DofE yn ffordd wych i'ch unigolyn ifanc ddarganfod cymaint y gall ei gyflawni. Mae'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc wneud ffrindiau newydd, dilyn eu diddordebau, dysgu sgiliau newydd a gwneud gwahaniaeth yn ein cymuned. Mae cwblhau Gwobr DofE hefyd yn ffordd wych o greu argraff ar gyflogwyr. Ac mae'n helpu pobl ifanc i weld eu hunain yn wahanol a magu lefel newydd o hyder. Rydym bob amser yn dweud ar ôl cwblhau eich DofE, y byddwch yn barod i ddelio â pha bynnag heriau sy'n eich wynebu mewn bywyd.

Nid yw'r DofE yn gystadleuol ac mae'n ffordd bwerus i bob unigolyn ifanc ddechrau credu ynddynt eu hunain, waeth beth fo'u cefndir, diddordebau a galluoedd.

Sut mae'n gweithio

Mae tair lefel Gwobr DofE - Efydd, Arian ac Aur. I gyflawni eu Gwobr, bydd angen i'ch unigolyn ifanc gwblhau pedair adran – Gwirfoddoli, Corfforol, Sgiliau ac Alldaith [a phreswyl ar gyfer Gwobr Aur].

Gall pobl ifanc ddewis beth yr hoffent ei wneud ar gyfer y tair adran gyntaf, a byddwn yn darparu'r holl arweiniad a chymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r Alldaith yn cynnwys treulio [dau/tri/pedwar] diwrnod a [un/dwy/tair] noson yng nghefn gwlad. Rydym yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr ymlaen llaw i sicrhau bod pawb wedi'u paratoi'n drylwyr ac yn cael y profiad gorau posibl.

Camau nesaf

Rydym yn gobeithio y bydd llawer o'n pobl ifanc yn cymryd y cyfle hwn i ymwneud â DofE. Y gost yw [£xx] y pen. [Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn cymryd rhan ond mae'r gost yn ei atal, siaradwch â mi gan efallai y gallwn drefnu cymorth ariannol.]



**YOUTH
WITHOUT
LIMITS**

Rydym wedi trefnu digwyddiad gwybodaeth i rieni, gofalwyr a phobl ifanc ar [dyddiad a manylion yma]. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, cofiwch gysylltu â mi. Mae gan wefan DofE, dofe.org - lawer o wybodaeth ddefnyddiol hefyd.

Diolch i chi am eich cymorth. Gobeithiaf y byddwch yn cytuno bod y DofE yn ffordd berffaith i'ch unigolyn ifanc deimlo'n barod ar gyfer unrhyw beth.

Yn gywir,

[Enw]

Rheolwr DofE
[Cyfeiriad e-bost]

For participants

Annwyl [enw],

Rwy'n llawn cyffro i roi gwybod i chi y gallwch nawr gofrestru i wneud eich Gwobr Dug Caeredin (DofE) [Efydd/Arian/Aur].

Mae gwneud eich DofE yn rhoi cyfle i chi ddarganfod cymaint y gallwch ei gyflawni. Mae hefyd yn ffordd wych o gwrdd â phobl newydd, rhoi cynnig ar bethau newydd, gwneud yr hyn rydym yn ei fwynhau a gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned. Drwy'r DofE, gallech roi cynnig ar bopeth o syrffio i ddawnsio salsa, cadw gwenyn i feicio BMX. Chi biau'r dewis.

Nid yw'r DofE yn gystadleuol ac mae croeso i bawb - beth bynnag fo'ch diddordebau, cefndir a galluoedd. Mae'n ymwneud â dod o hyd i'r hyder i fod yn chi eich hun a gwybod pan fydd pethau'n anodd, y gallwch ddod drwyddi.

Sut mae'n gweithio

I gyflawni eich Gwobr, bydd angen i chi gwblhau pedair adran – Gwirfoddoli, Corfforol, Sgiliau ac Alldaith [a phreswyl ar gyfer Gwobr Aur]. Chi sydd i benderfynu beth ydych chi'n ei wneud ar gyfer y tair adran gyntaf, a byddwn yn rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch. Mae'r Alldaith yn cynnwys treulio [dau/tri/pedwar] diwrnod a [un/dwy/tair] noson yng nghefn gwlad, ac unwaith eto byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod wedi'ch paratoi'n drylwyr ati.



**YOUTH
WITHOUT
LIMITS**

Fi yw'r Rheolwr DofE ar gyfer [ysgol/sefydliad], felly os ydych chi'n credu y gallai fod gennych ddiddordeb neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch. Byddai'n wych cael grŵp mawr o fyfyrwyr ynghyd i wneud y mwyaf o'r cyfle hwn. Gyda'r DofE, gallwch brofi i chi eich hun eich bod yn barod ar gyfer unrhyw beth.

[enw]

Rheolwr DofE